## Cyflenwyr hunangyflogedig – Cyfarwyddiadau gwirio hawl i weithio

Fel Deiliad Trwydded a Noddir gan y Swyddfa Gartref, mae bellach yn ofynnol i Brifysgol Bangor gynnal gwiriadau hawl i weithio ar unigolion hunangyflogedig er mwyn cydymffurfio â'i dyletswyddau fel noddwr. Gall methu â gwneud hynny arwain at y brifysgol yn colli ei thrwydded neu ei rhoi mewn perygl o gael cosb sifil. Rhaid i wiriadau ddilyn canllaw'r Swyddfa Gartref i gyflogwyr ar wiriadau hawl i weithio. Dim ond ar ôl i chi ddarparu tystiolaeth berthnasol i ddangos eich hawl i weithio yn unol ag Atodiad 1 ar ddiwedd y ddogfen hon y caniateir i chi ddechrau gweithio yn y Brifysgol.

Cyn dechrau ar unrhyw waith, dylech gysylltu ag Adnoddau Dynol yn casualworkers-hr@bangor.ac.uk gan nodi'n glir bod gofyn i chi gwblhau gwiriad hawl i weithio cyn bod yn gymwys i weithio i'r brifysgol/darparu gwasanaethau yn y brifysgol fel unigolyn hunangyflogedig. Rhaid i chi gopïo'r unigolyn sy'n dymuno defnyddio eich gwasanaethau yn y brifysgol ar yr e-bost a chadarnhau sut yr hoffech ddarparu eich tystiolaeth o'r dewisiadau canlynol:

**DEWIS 1** Rwy'n ddinesydd â fisa. Rwy'n deall bod rhaid i mi ddarparu cod cyfrannau i brofi fy hawl i weithio (https://www.gov.uk/view-prove-immigration-status). ). Nodir fy nghod cyfrannau a'm dyddiad geni isod:

COD CYFRANNAU
DYDDIAD GENI:
Y MATH O FISA SYDD GENNYF YW (e.e. gweithiwr medrus, myfyriwr, dibynnydd, anheddiad yr UE, caniatâd amhenodol i aros, etc.):
Rwy'n deall os oes gennyf fisa myfyriwr ac nad wyf yn fyfyriwr ym Mangor y bydd gofyn i mi ddarparu llythyr gan fy mhrifysgol bresennol yn cadarnhau fy manylion cofrestru fel myfyriwr gan gynnwys lefel y radd rwy'n ei hastudio a dyddiadau fy nghofrestriad yn ystod y tymor.

Rwy'n deall os oes gennyf fisa gweithiwr medrus nad yw wedi ei roi i weithio i Brifysgol Bangor yna bydd gofyn i mi ddarparu tystiolaeth ychwanegol i brofi fy hawl i weithio o dan y rheolau cyflogaeth atodol fel y nodir yn nogfennau Hawl i Weithio yn y Deyrnas Unedig o dan R yn y Rhestr A-Z yma: https://www.bangor.ac.uk/humanresources/atoz.php.cy

Rwy'n deall y bydd rhaid i mi fynd ar alwad TEAMS/fideo i gadarnhau mai fi yw'r unigolyn dan sylw cyn y gellir cwblhau fy nghofrestriad.

Y dull cysylltu sydd orau gennyf i drefnu'r alwad hon yw (rhif ffôn cyswllt / cyfeiriad e-bost personol)

**DEWIS 2** Rwy'n ddinesydd Prydeinig/Gwyddelig gyda phasbort Prydeinig/Gwyddelig cyfredol (gan gynnwys cardiau adnabod). Hoffwn ddarparu fy nhystiolaeth o bell (heb fod rhaid dod i'r campws yn y cnawd i wneud hynny) gan ddefnyddio TrustID, sef darparwr gwasanaeth hunaniaeth ardystiedig y Swyddfa Gartref (IDSP).

Rwy'n deall y byddaf yn cael e-bost yn uniongyrchol gan TrustID gyda chyfarwyddiadau ar sut i gwblhau'r gwiriad digidol (bydd rhaid i chi ddefnyddio dyfais symudol h.y. ffôn/tabled ac ati ond NID gliniadur) a fydd yn golygu bod rhaid i mi sganio fy mhasbort/cerdyn adnabod cyfredol, a fydd yn cael ei gwirio gan feddalwedd TrustID.

Rwy'n deall, unwaith y bydd Adnoddau Dynol wedi cael cadarnhad gan TrustID, y bydd rhaid i mi fynd ar alwad TEAMS sydyn gydag aelod o'r tîm AD i wirio mai fi yw'r unigolyn yn y ddogfen a ddarparwyd i TrustID cyn y gellir cwblhau fy nghofrestriad.

Y dull cysylltu sydd orau gennyf i drefnu'r alwad hon yw (rhif ffôn cyswllt / cyfeiriad e-bost personol)

**DEWIS 3** Rwy'n ddinesydd Prydeinig/Gwyddelig ond nid oes gennyf basbort cyfredol. Rwy’n deall y bydd rhaid i mi wneud y gwiriad adnabod yn y cnawd trwy ddod â dogfennau gwreiddiol gyda mi i apwyntiad yn yr Adran Adnoddau Dynol, Neuadd Reichel, Ffordd Ffriddoedd, Bangor. Byddaf yn sicrhau fy mod yn dod â dogfennau adnabod gwreiddiol derbyniol fel y manylir yn nogfennau Hawl i Weithio yn y Deyrnas Unedig o dan R yn y rhestr A-Z yma: https://www.bangor.ac.uk/humanresources/atoz.php.cy <https://www.bangor.ac.uk/humanresources/atoz.php.en>

Y dull cysylltu sydd orau gennyf i drefnu'r apwyntiad yw (rhif ffôn cyswllt / cyfeiriad e-bost personol)

Rwy’n deall na fydd fy nghofrestriad wedi ei gwblhau tan y byddaf wedi bod yn yr apwyntiad yn y cnawd a chyflwyno dogfennaeth dderbyniol.

**DEWIS 4** Rwy'n ddinesydd Prydeinig/Gwyddelig ond nid oes gennyf basbort cyfredol ac nid wyf eisiau dod i apwyntiad yn y cnawd. Er mwyn darparu dogfennau gwreiddiol derbyniol fel y manylir o dan y dogfennau Hawl i Weithio yn y Deyrnas Unedig o dan R yn y rhestr A-Z yma: https://www.bangor.ac.uk/humanresources/atoz.php.cy, rwyf wedi dewis anfon y dogfennau gwreiddiol trwy’r post i'r Adran Adnoddau Dynol, Neuadd Reichel, Ffordd Ffriddoedd, Bangor. Bydd y brifysgol yn dychwelyd y ddogfennaeth i'r cyfeiriad cartref yn y Deyrnas Unedig a nodwyd yn y cofrestriad hwn.

Wrth ddewis anfon dogfennau gwreiddiol trwy’r post, rwy’n deall fy mod yn gwneud hynny ar fy menter fy hun ac ni wnaiff y brifysgol gymryd unrhyw gyfrifoldeb pe bai’r dogfennau’n mynd ar goll.

Unwaith y bydd yr adran AD wedi derbyn fy nogfennaeth, bydd rhaid i mi fynd ar alwad TEAMS sydyn gydag aelod o’r tîm AD i wirio mai fi yw’r unigolyn yn y ddogfen a ddarparwyd cyn gellir cwblhau’r cofrestriad.

Y dull cysylltu sydd orau gennyf i drefnu'r alwad hon yw (rhif ffôn cyswllt / cyfeiriad e-bost personol)

Unwaith y bydd eich gwiriad hawl i weithio wedi ei gwblhau'n llwyddiannus, bydd AD yn rhoi gwybod i'r unigolyn sy'n dymuno defnyddio eich gwasanaethau yn y brifysgol eich bod bellach yn gallu dechrau gweithio / ac os oes unrhyw gyfyngiadau oherwydd materion fisa. Yn yr un modd, rhoddir gwybod hefyd i’r Swyddfa Gyllid. Bydd y brifysgol yn cadw copi o'ch dogfennau gwirio hawl i weithio, yn unol â gofynion y Swyddfa Gartref, am gyfnod eich cyflogaeth ac am ddwy flynedd wedi hynny.

Atodiad 1

## TYSTIOLAETH DDOGFENNOL O FOD YN GYMWYS I WEITHIO YN Y DEYRNAS UNEDIG

O dan Ddeddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2006 gofynnir i chi roi tystiolaeth ddogfennol o'ch cymhwyster i weithio yn y Deyrnas Unedig. Bydd Adnoddau Dynol yn cadw copi/cofnod o'r gwiriad a gynhelir ar eich cofnod Adnoddau Dynol unigol. Bydd y dogfennau y gellwch eu cyflwyno yn dibynnu ar yr hyn sydd ar gael i chi, ac a yw'r gwiriad hawl i weithio yn cael ei wneud â llaw neu ar-lein.

### GWIRIAD Â LLAW HAWL I WEITHIO AR SAIL DOGFENNAU

Ar gyfer gwiriad â llaw, rhaid i'r holl ddogfennaeth fod yn ddogfennau gwreiddiol. Ni dderbynnir copïau.

| | |
|---|---|
| **RHESTR A** | |
| **Os cyflwynwch ddogfennau o'r rhestr hon, ni fydd angen mwy o wiriadau yn ystod eich cyfnod cyflogaeth.** | |
| 1. | Pasbort (cyfredol neu wedi dirwyn i ben, ond heb ei dorri) yn dangos bod y deiliad yn ddinesydd Prydeinig, neu'n ddinesydd y Deyrnas Unedig a'r Trefedigaethau sydd â hawl i fyw yn y Deyrnas Unedig. |
| 2. | Pasbort neu gerdyn pasbort (yn y naill achos neu'r llall, naill ai'n gyfredol neu wedi dirwyn i ben, ond heb ei dorri) yn dangos bod y deiliad yn Ddinesydd Gwyddelig. |
| 3. | Dogfen a ddyroddwyd gan Feilïaeth Jersey, Beilïaeth Guernsey neu Ynys Manaw, sydd wedi cael ei wirio fel dogfen ddilys gan **Wasanaeth Gwirio Cyflogwyr y Swyddfa Gartref**, yn dangos bod y deiliad wedi cael caniatâd diderfyn i gael mynediad neu i aros o dan Atodiad yr UE i Reolau Mewnfudo Jersey, Atodiad yr UE i Reolau Mewnfudo (Beilïaeth Guernsey) 2008 neu Atodiad yr UE i Reolau Mewnfudo Ynys Manaw. **Mae'n ofynnol i Adnoddau Dynol ofyn i Wasanaeth Gwirio Cyflogwyr y Swyddfa Gartref wirio bod y wybodaeth yn ddilys. Dim ond ar ôl derbyn Hysbysiad Gwirio Cadarnhaol y cewch ddechrau gweithio.** |
| 4. | Pasbort **cyfredol** a arnodwyd i ddangos bod y deiliad wedi'i eithrio/heithrio o gamau rheoli mewnfudo, y caiff aros am gyfnod amhenodol yn y Deyrnas Unedig, bod ganddo/ganddi hawl i fyw yn y Deyrnas Unedig, neu nad oes cyfyngiad amser ar ei arhosiad/harhosiad yn y Deyrnas Unedig. |
| 5. | Dogfen Statws Mewnfudo **gyfredol** a ddyroddwyd gan y Swyddfa Gartref i'r deiliad gydag arnodiad yn nodi y caiff yr unigolyn dan sylw aros yn y Deyrnas Unedig am gyfnod amhenodol neu nad oes cyfyngiad amser ar ei arhosiad/ei harhosiad yn y Deyrnas Unedig, **YNGHYD Â** dogfen swyddogol sy'n rhoi rhif Yswiriant Gwladol parhaol yr unigolyn a'i enw/henw, a ddyroddwyd gan un o asiantaethau'r llywodraeth neu gyflogwr blaenorol. |
| 6. | Tystysgrif geni neu fabwysiadu a ddyroddwyd yn y Deyrnas Unedig, **YNGHYD Â** dogfen swyddogol sy'n rhoi rhif Yswiriant Gwladol parhaol yr unigolyn a'i enw/henw, a ddyroddwyd gan un o asiantaethau'r llywodraeth neu gyflogwr blaenorol (yn cynnwys tystysgrif geni llawn a ddyroddwyd gan genhadaeth ddiplomyddol y DU (Llysgenhadaeth Brydeinig neu Uchel Gomisiwn Prydeinig). |
| 7. | Tystysgrif geni neu fabwysiadu a ddyroddwyd yn Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw neu Iwerddon, **YNGHYD Â** dogfen swyddogol sy'n rhoi Rhif Yswiriant Gwladol parhaol yr unigolyn a'i enw/henw, a ddyroddwyd gan un o asiantaethau'r llywodraeth neu gyflogwr blaenorol. |
| 8. | Tystysgrif gofrestru neu naturioli fel dinesydd Prydeinig, **YNGHYD Â** dogfen swyddogol yn rhoi rhif Yswiriant Gwladol parhaol yr unigolyn a'i enw/henw, a ddyroddwyd gan un o asiantaethau'r llywodraeth neu gyflogwr blaenorol. |
| **RHESTR B - GRŴP 1** | |
| **Os cyflwynwch ddogfennau o'r rhestr hon, bydd angen mwy o wiriadau ar y dyddiad dirwyn i ben a fanylir yn y dogfennau os yw eich cyflogaeth i barhau ar ôl y dyddiad hwnnw.** | |
| 1. | Pasbort **cyfredol** a arnodwyd i ddangos bod y deiliad yn cael aros yn y Deyrnas Unedig ac ar hyn o bryd yn cael gwneud y math o waith sydd dan sylw. |

| | |
|---|---|
| 2. | Dogfen a ddyroddwyd gan Feilïaeth Jersey, Beilïaeth Guernsey neu Ynys Manaw, sydd wedi cael ei wirio fel dogfen ddilys gan **Wasanaeth Gwirio Cyflogwyr y Swyddfa Gartref**, yn dangos bod y deiliad wedi cael caniatâd diderfyn i gael mynediad neu i aros o dan Atodiad yr UE i Reolau Mewnfudo Jersey, Atodiad yr UE i Reolau Mewnfudo (Beilïaeth Guernsey) 2008 neu Atodiad yr UE i Reolau Mewnfudo Ynys Manaw. **Mae'n ofynnol i Adnoddau Dynol ofyn i Wasanaeth Gwirio Cyflogwyr y Swyddfa Gartref wirio bod y wybodaeth yn ddilys. Dim ond ar ôl derbyn Hysbysiad Gwirio Cadarnhaol y cewch ddechrau gweithio.** |
| 3. | Dogfen Statws Mewnfudo **gyfredol** yn cynnwys ffotograff a ddyroddwyd gan y Swyddfa Gartref i'r deiliad, gydag arnodiad dilys sy'n nodi y caiff yr unigolyn dan sylw aros yn y Deyrnas Unedig, ac y caiff wneud y math o waith dan sylw, **YNGHYD Â** dogfen swyddogol sy'n rhoi rhif Yswiriant Gwladol parhaol yr unigolyn a'i enw/henw, a ddyroddwyd gan un o asiantaethau'r llywodraeth neu gyflogwr blaenorol. |

| **RHESTR B - GRŴP 2** | |
|---|---|
| **Os cyflwynwch ddogfennau o blith y rhestr hon, bydd angen mwy o wiriadau o fewn 6 mis o'u cyflwyno.** | |
| 1. | Dogfen a ddyroddwyd gan y Swyddfa Gartref yn dangos bod y deiliad wedi gwneud cais am ganiatâd i gael mynediad neu i aros o dan Atodiad yr UE i'r rheolau mewnfudo (a elwir yn Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE), ar neu ar ôl 1 Gorffennaf 2021 YNGHYD Â **Hysbysiad Gwirio Cadarnhaol** gan **Wasanaeth Gwirio Cyflogwyr y Swyddfa Gartref**. **Mae'n ofynnol i Adnoddau Dynol ofyn i Wasanaeth Gwirio Cyflogwyr y Swyddfa Gartref wirio bod y wybodaeth yn ddilys. Dim ond ar ôl derbyn Hysbysiad Gwirio Cadarnhaol y cewch ddechrau gweithio.** |
| 2. | Tystysgrif Cais (digidol neu heb fod yn ddigidol) a ddyroddwyd gan y Swyddfa Gartref yn dangos bod y deiliad wedi gwneud cais am ganiatâd i gael mynediad neu i aros o dan Atodiad yr Undeb Ewropeaidd i'r rheolau mewnfudo (a elwir yn Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE), ar neu ar ôl 1 Gorffennaf 2021 **YNGHYD Â Hysbysiad Gwirio Cadarnhaol** gan **Wasanaeth Gwirio Cyflogwyr y Swyddfa Gartref.** Mae'n ofynnol i Adnoddau Dynol ofyn i Wasanaeth Gwirio Cyflogwyr y Swyddfa Gartref wirio bod y wybodaeth yn ddilys. Dim ond ar ôl derbyn Hysbysiad Gwirio Cadarnhaol y cewch ddechrau gweithio. |
| 3. | Dogfen a ddyroddwyd gan Feilïaeth Jersey, Beilïaeth Guernsey neu Ynys Manaw, yn dangos bod y deiliad wedi gwneud cais am ganiatâd i gael mynediad neu i aros o dan Atodiad yr UE(J) i Reolau Mewnfudo Jersey neu Atodiad yr UE i Reolau Mewnfudo (Beilïaeth Guernsey) 2008, neu Atodiad yr UE i Reolau Mewnfudo Ynys Manaw **YNGHYD Â Hysbysiad Gwirio Cadarnhaol** gan **Wasanaeth Gwirio Cyflogwyr y Swyddfa Gartref. Mae'n ofynnol i Adnoddau Dynol ofyn i Wasanaeth Gwirio Cyflogwyr y Swyddfa Gartref wirio bod y wybodaeth yn ddilys. Dim ond ar ôl derbyn Hysbysiad Gwirio Cadarnhaol y cewch ddechrau gweithio.** |
| 4. | Cerdyn Cofrestru cais, a ddyroddwyd gan y Swyddfa Gartref, sy'n datgan bod gan y deiliad hawl i gymryd y swydd dan sylw **YNGHYD Â Hysbysiad Gwirio Cadarnhaol** gan **Wasanaeth Gwirio Cyflogwyr y Swyddfa Gartref. Mae'n ofynnol i Adnoddau Dynol ofyn i Wasanaeth Gwirio Cyflogwyr y Swyddfa Gartref wirio bod y wybodaeth yn ddilys. Dim ond ar ôl derbyn Hysbysiad Gwirio Cadarnhaol y cewch ddechrau gweithio.** |
| 5. | Hysbysiad Gwirio cadarnhaol a ddyroddwyd i'r cyflogwr neu'r darpar gyflogwr gan Wasanaeth Gwirio Cyflogwyr y Swyddfa Gartref sy'n nodi y caiff yr unigolyn dan sylw aros yn y Deyrnas Unedig ac y caiff wneud y gwaith dan sylw. |

| DEILIAID FISA SY’N YMGYMRYD Â CHYFLOGAETH ATODOL | |
|---|---|
| Gall gweithiwr ymgymryd â chyflogaeth atodol os ydynt wedi cael caniatâd mynediad trwy unrhyw un o’r llwybrau canlynol:<br><br>• Gweithiwr Crefftus<br>• Y llwybrau o fewn cwmnïau a oedd ar waith cyn 11 Ebrill 2022<br>• Uwch Weithiwr neu Weithiwr Arbenigol (ond dim ond os ydynt yn gymwys o dan drefniant trosiannol)<br>• T2 Gweinidog yr Efengyl<br>• Athletwr Rhyngwladol<br>• Gweithiwr Creadigol<br>• Cyfnewid a awdurdodwyd gan y Llywodraeth<br>• Cytundeb Rhyngwladol (ond dim ond os yw’r gweithiwr wedi cael caniatâd fel gweithiwr i lywodraeth dramor neu sefydliad rhyngwladol)<br>• Gweithiwr Crefyddol<br><br>Yn ogystal â'r swydd a nodir ar y dystysgrif nawdd (CoS), caiff gweithwyr sy’n cael eu noddi trwy’r llwybrau uchod gyflawni cyflogaeth atodol ar yr amod ei bod yn bodloni **pob un** o’r amodau canlynol:<br><br>• ni chaiff fod am ddim mwy nag 20 awr yr wythnos; **ac**<br>• mae'n rhaid i'r gweithiwr barhau i weithio yn y swydd y nodir ar eu tystysgrif nawdd (ac eithrio lle maent wedi cwblhau hyfforddiant arbenigol fel meddyg teulu); **ac**<br>• mae’n rhaid i'r gyflogaeth atodol ddigwydd y tu allan i'r oriau gwaith arferol y nodir ar dystysgrif nawdd y gweithiwr; **ac**<br>• mae’n rhaid i’r gwaith fod yn un o’r mathau canlynol o gyflogaeth gymwys:<br>  ○ yn yr un proffesiwn ac ar yr un lefel broffesiynol â'r gwaith a nodir ar dystysgrif nawdd y gweithiwr; **neu**<br>  ○ yn swydd yn un o’r galwedigaethau a restrir yn yr Atodiad Rhestr Cyflog Mewnfudo - os caiff yr alwedigaeth ei thynnu oddi ar y rhestr hon yn ddiweddarach, rhaid i'r gweithiwr orffen y gyflogaeth honno; **neu**<br>  ○ yn swydd i Weithwyr Crefftus yn unig, ac yn swydd sydd â chod galwedigaeth Standard Occupational Classification (SOC) 2020 cymwys a restrir yn Nhabl 1, 2 neu 3 yr Atodiad Galwedigaethau Crefftus<br><br>Rhaid i’ch gwiriad hawl i weithio fel rhan o’r llwybr cyflogaeth atodol ddarparu’r canlynol: | |
| 1. | Hysbysiad Gwirio cadarnhaol a roddwyd i’r cyflogwr neu’r darpar-gyflogwr gan Wasanaeth Gwirio Cyflogwyr y Swyddfa Gartref sy'n nodi y caiff yr unigolyn dan sylw aros yn y Deyrnas Unedig ac y caiff ymgymryd â chyflogaeth atodol. |
| 2. | Rhaid i chi ddarparu llythyr (neu math arall o dystiolaeth) gan eich noddwr sy’n cadarnhau’r canlynol:<br><br>• Eich bod yn dal i weithio i'r noddwr a roddodd eich tystysgrif nawdd |

| | |
|---|---|
| | • Disgrifiad swydd a chod galwedigaeth eich cyflogaeth noddedig (os nad yw'r gyflogaeth atodol mewn galwedigaeth lle mae prinder gweithwyr);<br>• Eich oriau gwaith arferol |
| 3. | Rhaid i chi hefyd roi gwybod i ni os ydych yn ymgymryd ag unrhyw gyflogaeth atodol arall gyda chyflogwr arall i sicrhau na fyddwch yn gweithio mwy na chyfanswm o 20 awr yr wythnos mewn cyflogaeth atodol. |

**GWIRIAD AR-LEIN HAWL I WEITHIO**

1) **Os y dyroddwyd eich statws mewnfudo i chi'n ddigidol** gan y Swyddfa Gartref gellwch ddefnyddio'r gwasanaeth ar-lein i brofi eich hawl i weithio. I wneud hyn, bydd angen i chi ddarparu eich 'cod rhannu' (share code) a'ch dyddiad geni i'r brifysgol, sy'n caniatáu inni weld eich gwybodaeth ar-lein. Bydd eich cod rhannu yn dechrau gyda'r llythyren W i ddangos ei fod yn cael ei ddarparu at ddiben gwirio eich hawl i weithio. Bydd y Brifysgol yn defnyddio eich cod rhannu a'ch dyddiad geni i gynnal gwiriad hawl i weithio ar-lein gan ddefnyddio gwasanaeth gwirio hawl i weithio'r Swyddfa Gartref: https://www.gov.uk/view-right-to-work.

   Os yw eich gwiriad ar-lein yn dangos bod terfyn amser ar eich statws mewnfudo, bydd angen gwiriad pellach ar y dyddiad dirwyn i ben a fanylir yn y ddogfennaeth os yw cyflogaeth i barhau y tu hwnt i'r dyddiad hwnnw.

   Pan fydd y Brifysgol yn cynnal y gwiriad hawl i weithio ar-lein byddwn yn gofyn i chi naill ai fod yn bresennol yn gorfforol o flaen y sawl sy'n gwneud y gwiriad, neu byddwn yn gofyn i chi gymryd rhan mewn galwad TEAMS/Fideo wrth inni gynnal y gwiriad. Mae'n ofynnol i ni wneud hyn o dan reolau'r Swyddfa Gartref i sicrhau bod y ffotograff yn y gwiriad hawl i weithio ar-lein yn ffotograff ohonoch chi.

2) **Os nad ydych wedi derbyn eich statws mewnfudo yn ddigidol gan y Swyddfa Gartref a bod gennych Gerdyn Preswylio Biometrig (BRC), Trwydded Breswylio Biometrig (BRP) neu Drwydded Gweithiwr Trawsffiniol (FWP) ffisegol** bydd angen i chi gael cod rhannu oddi wrth: https://www.gov.uk/prove-right-to-work I wneud hynny bydd angen un o'r canlynol arnoch:

   - Rhif eich trwydded breswylio biometrig
   - Rhif eich cerdyn preswylio biometrig
   - Eich pasbort neu gerdyn adnabod cenedlaethol

3) Bydd angen i chi roi eich 'cod rhannu' a'ch dyddiad geni i'r brifysgol, sy'n caniatáu inni weld eich gwybodaeth ar-lein. Bydd eich cod rhannu yn dechrau gyda'r llythyren W i ddangos ei fod yn cael ei ddarparu at ddiben gwirio eich hawl i weithio. Bydd y Brifysgol yn defnyddio eich cod rhannu a'ch dyddiad geni i wneud gwiriad hawl i weithio ar-lein gan ddefnyddio gwasanaeth gwirio hawl i weithio'r Swyddfa Gartref: https://www.gov.uk/view-right-to-work

   Os ydych yn ddeiliad fisa myfyriwr a bod gennych ganiatâd i weithio am nifer cyfyngedig o oriau'r wythnos yn ystod amser tymor, rhaid i chi hefyd roi copi i'r Brifysgol o ddyddiadau eich tymhorau academaidd ac amseroedd gwyliau dros eich

cyfnod astudio llawn yn y Deyrnas Unedig i ddangos pryd y cewch weithio. Byddwn yn cadw copi o'r dystiolaeth hon.

Os yw eich gwiriad ar-lein yn dangos bod terfyn amser ar eich statws mewnfudo, bydd angen gwiriad pellach ar y dyddiad dirwyn i ben a fanylir yn y ddogfennaeth os yw eich cyflogaeth i barhau y tu hwnt i'r dyddiad hwnnw.

Pan fydd y Brifysgol yn cynnal y gwiriad hawl i weithio ar-lein byddwn yn gofyn i chi naill ai fod yn bresennol yn gorfforol o flaen y sawl sy'n gwneud y gwiriad, neu byddwn yn gofyn i chi gymryd rhan mewn galwad TEAMS/Fideo wrth inni gynnal y gwiriad. Mae'n ofynnol i ni wneud hyn o dan reolau'r Swyddfa Gartref i sicrhau bod y ffotograff yn y gwiriad hawl i weithio ar-lein yn ffotograff ohonoch chi.

**SYLWCH** Yn ogystal â'r gwiriad ar-lein drwy'r 'cod rhannu', mae'n ofynnol i ddeiliaid fisa Gweithiwr Medrus a deiliaid fisa Gweithiwr Dros Dro (Haen 5) ddangos eu pasbort cyfredol (tudalen fanylion) ac os ydynt yn cael mynediad i'r Deyrnas Unedig am y tro cyntaf, y stamp mynediad mewnfudo - neu os nad yw'r stamp ar gael, tystiolaeth arall o'r dyddiad mynediad i'r Deyrnas Unedig e.e. tocynnau teithio neu bas byrddio (papur neu electronig).

Mae'n bosibl i'r Brifysgol wneud gwiriad hawl i weithio yn ddigidol (ar-lein) ar gyfer Dinasyddion Prydeinig a Gwyddelig sydd â **phasbort cyfredol Prydeinig neu Wyddelig (neu gerdyn pasbort Gwyddelig**). Os ydych yn dymuno defnyddio eich pasbort/cerdyn pasbort cyfredol i'r diben hwn rhowch wybod i ni ac yna byddwn yn rhoi dolen i chi i wneud y gwiriad ar-lein.

Bydd gofyn i Ddinasyddion Prydeinig a Gwyddelig nad oes ganddynt basbort neu gerdyn pasbort Gwyddelig cyfredol gyflwyno copïau gwreiddiol o'r 2 ddogfen a ddewisir ganddynt er mwyn eu gwirio â llaw yn y cnawd.